"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1884. [RHIF 36.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Pregeth gan y diweddar Barch. William Thomas, M.A. (Gwilym Marles) Parhad	169
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru	173
Y diweddar Daniel Thomas, Ysw.	175
Y Parousia yn yr Efengylau	177
Crefydda a Diota	181
Beddargraff Iolo Morganwg	183
Y Dynol Flodeuyn	183
John Wicliffe	184
Gofyniadau	187
Duw, Cariad yw	189
Sul y Drindod	189
Manion a Hanesion	191
Marwgofion	192

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1884. [RHIF 36.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

PREGETH

GAN Y DIWEDDAR BARCH. WILLIAM THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES),

AR ESAIAH XLIX. 14, 15.

(*Parhad o dudalen* 149, *Rhifyn Gorphenaf.*)

(4) A throi am funyd i gyfeiriad arall, ni a allwn ddweyd fod yr eglwys wedi bod mewn caethiwed, os nad allan o dir ei gwlad, etto a gwaeth fyth, yn nhir ei gwlad ei hunan, ar ol y caethgludiad gynt i Fabilon, y cyfeirir ato yn y testyn. Mae hi wedi bod yn amser enbyd ar grefydd yn y wlad hon, ac yn mhob gwlad o ran hyny, ar droion yn yr oesau a aethant heibio.

> "Mae'n hyn o fyd, ac yn mhob tir,
> Wylofain wedi bod yn hir;
> Pob da, pob doeth, â chalon brudd,
> A'r dagrau'n ffrydiau dros ei rudd."

Graddol iawn, a thrwy lawer o chwys a gwaed, y mae buddugoliaethau rhyddid crefyddol wedi eu hennill yn y wlad hon. Os trown ein golwg yn ol am ychydig ganrifoedd, tywydd garw iawn oedd hi ar y rhai a fynent addoli Duw yn ol eu hargyhoeddiadau ei hunain, os yn groes i'r hyn oedd wedi cael ei osod i lawr gan y gallu gwladol ar y pryd. Yr oedd deddfau o'r mwyaf traws a chreulawn er attal pob ymchwiliad personol ac annibyniaeth barn gyda phethau crefyddol. Nid oes etto ond 250 o flynyddau er y llosgwyd Legate yn Smithfield, ac Edward Wightman yn Lichfield, am yr athrawiaeth fendigedig o Undod Duw, a hwnw yn Dad. Nid oes ond 150 o flynyddau er pan yr erlidiwyd ac

y carcharwyd, gyda dirwy drom yn ychwanegol at hyny, y dewr a'r duwiol Emlyn, gweinidog yn ninas Dublin. Nid oes ond 50 mlynedd er pan y symudwyd oddiar ddeddf-lyfr Prydain bob deddf a ddarparai ddirwyon a charchar, a llawer o anfanteision ereill llawn mor chwerw, ar gyfer pwy bynag na chredai yn ychwanegol at fod y Tad yn Dduw, fod y Mab yn Dduw, a'r Ysbryd Glân yn Dduw hefyd. Nid yw hyna ond enghraifft o'r modd mae pethau wedi bod yn y wlad hon. Trawsarglwyddiaethid gyda braich o haiarn ar bwy bynag nad ymostyngai i ryw ddelw neillduol y dewisid ei gosod i fyny. Dynion da, ïe, goreuon y tir, fel y mae amser wedi dangos, yn cael eu gwawdio, eu herlid, a'u sathru dan draed, a phris yn cael ei osod ar eu gwaed gwirion, yn gorfod ymgynnull i addoli Duw, nid fel y ni yma heddyw, yn gyhoeddus a diofn, yn ngwyneb haul a llygad goleuni, a chyfraith y wlad o'r tu cefn i ni; ond mewn anialwch, a mynyddoedd, a thyllau, "ac ogofeydd y ddaear," a bytheuaid gwaedlyd trawsawdurdod yn dyn ar eu *track* bob amser, ac yn sychedu am eu llarpio a'u lladd. Ai tybed na ddarfu i'r hen wroniaid hyny—rhad Duw ar eu coffadwriaeth—er cryfed eu ffydd, amheu weithiau ynddynt eu hunain wrth weled y fath ddrych ar bethau, a gofyn pa le y mae Duw? Pa le y mae cyfiawnder ei lywodraeth? Pa le y mae y ffyddlondeb y soniai hen saint y Beibl am dano? Pa le y mae ei fraich estynedig i waredu ei bobl o'u caethiwed? "Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c.

(5) Er fod y cyfryw dymhestloedd allanol wedi tawelu trwy drugaredd yn ein gwlad ni—yr haul wedi codi yn uwch i'r lan, etto, mae tymhestloedd mewnol nad oes i ni ddysgwyl cael dianc rhagddynt. Fel yn anwahanadwy oddiwrth ein tynged bresenol, fel wedi eu hordeinio i fod yn rhan o brofiad pob un fyddo â'i ymdrech i arwain y gwir fywyd ar y ddaear, fel yn gynnwysedig yn y ddysgyblaeth hono trwy ddyoddefiadau, heb yr hon nid oes i ni obaith i gael ein perffeithio, ai nid gwir yw y byddwn oll weithiau yn cael ein maeddu gan ofnau ac amheuon, ac y cwyd cymmylau duon rhyngom â'r cariad difachlud, ac y byddwn yn teimlo fel pe byddai craig ein gobaith yn siglo ac yn llithro ymaith odditanom, a ninau yn syrthio i ddyfnderoedd tywyll a diwaelod? Mil o ofyniadau yn codi yn y meddwl, a lleng o groeswyntoedd amheuaeth fel yn cydgyfarfod ynom i ymladd eu brwydr allan. Collwn ein golwg ar haul a lloer; nid oes ond tywyllwch fel y fagddu, y byd a'i hanes yn rhyw gymysgedd dibendraw, patriarchiaid a phroffwydi ac apostolion yn ymddangos i ni fel plant yn chwareu heb afael sicr ganddynt ar ddim, na sylfaen safadwy i'r un gobaith; yr holl fyd a'r cyfan ynddo fel yn troi o amgylch yn chwyrn a direol, ar ddisgyn i lynclyn coll tragywyddol, heb un fraich gref o gariad yn estynedig o dano, ac heb un ewyllys ddoeth i'w hwylio yn ei symudiadau; y cwbl yn afluniaidd a gwâg, a thywyllwch ar wyneb y dyfnder, *heb* Ysbryd Duw yn symud ar wyneb y dyfroedd; ac yn ei drallod a'i ing, pa syndod os tyr yr enaid allan, "Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c. Ond ni a drown; angen dyn yw cyfleustra Duw. Mae y nodau uwchaf yn nghaniadau y saint wedi eu cyrhaedd pan y rhodient yn alarus trwy orthrymder y gelyn.

II. Y sicrwydd o dynerwch a dianwadalwch y cariad Dwyfol: "A anghofia gwraig," &c. Gan nad pa beth a dybiwn ni i'r gwrthwyneb o dan rai amgylchiadau, fe'n sicrheir fod ffyddlondeb Duw yn ddiball, fod ei serch yn gywirach, yn gryfach, yn llai cyfnewidiol nâ'r serch daearol cryfaf. Yn ein hadfyd mwyaf, pan fyddo y nos dywyllaf arnom, pan yn ofni fod ei gariad yn oeri atom, ffyddlawn a chywir y parhâ efe y pryd hwnw.

Mae y darluniad hwn o gariad y Tad yn anwrthwynebol, yn myned at wreiddyn y mater ar unwaith; myned yn mhellach nid yw yn ngallu iaith; cyrhaedda adref i bob mynwes. Pa beth sydd gryfach nâ serch mam? ïe, serch mam at ei phlentyn sugno, lle mae y reddf naturiol yn ei man cryfaf. Mae yn ddiarebol dros y byd. Fe lanwai yr hanesion am serch mam—ond paham y soniwn am hanesion? Nid oes neb yn meddwl am gofnodi y peth gan ei fod mor gyffredinol. Llanwent fwy o gyfrolau nâg a ysgrifenwyd ar bob testyn gyda'u gilydd er dechreuad y byd. Ni chynnwysai y byd mo'r llyfrau. O gaban Indiad Gogledd America i fyny at balas ein Grasusaf Frenhines mae mil o risiau, ond mae serch mam yn taflu rhyw oleuni swynol drostynt oll. Nid yw y fam dlotaf heb y serch hwn. Mae yn rhodd Duw i bob un. Mae y ddelw brydferth hon o gariad y Tad i'w gweled yn mhob man, yn ddarluniad o un o brydweddau godidocaf ei gymmeriad perffaith. Y *gipsy* dlawd sydd yn crwydro o fan i fan, heb iddi na gwlad nâ chenedl neillduol o dan y nef, a oes ganddi serch at ei phlentyn sugno? Oes. Fe gaiff ei gwên fwyaf serchog, ei geiriau mwyaf tyner, a'r lle nesaf at ei chalon i orphwys arno. Dyma dystiolaeth gyffredinol i gariad Duw, ynte.

Mae serch mam y *peth cyntaf* y deuwn ni i adnabyddiaeth o hono, fel pe wedi ei fwriadu i fod yn athraw i ni at y Tad mawr. Fel hyn yr ydym yn cael ein dodi yn ysgol crefydd gan Ragluniaeth o ddechreu ein bywyd ar y ddaear, a gwyddoch mai gwersi cyntaf bywyd sydd yn aros ddiweddaf yn y cof; gallant fyned allan o olwg ar droion, ond ymddangosant drachefn fel y lloer rhwng y cymmylau. Pwy all ddweyd pa fraint yw fod y wers gyntaf a ddysgwn ar y ddaear yn wers sydd yn ein harwain at y Tad mawr, i roddi ein hymddiried ynddo, ac er y dichon iddi weithiau gael ei hannghofio, nad oes modd yr aiff hi byth yn llwyr dros gof?

Mae serch mam yn un o'r pethau y teimlwn fwyaf sicr o hono—y tueddwn leiaf i'w amheu. Gwyr y rhan fwyaf am dano, ac y maent yn barod i ddwyn eu tystiolaeth pa mor gryf a nerthol yw; dyfroedd lawer ni allant ddiffoddi ei chariad hi, ac afonydd nis boddant ef. Y mae cred yn nghariad mam yn bwnc sylfaenol gan bawb a gawsant brawf o hono, ac y mae y cyfryw yn ffurfio y dosbarth lluosocaf o lawer; a'r rhai, oblegyd angeu neu ryw amgylchiadau ereill, a gawsant eu hamddifadu o hono, nid oes neb yn fwy na'u hunain a alarant y golled—colled nad oes dim a'i gwna byth i fyny yn llawn.

Yn awr, at y serch tyner hwn yr apelia y proffwyd—serch sydd mor gyffredinol, dianwadal, ac anffaeledig a dim meidrol y gwyddom am dano, yn dòn gref drwy bob naturiaeth—anifeiliaid o bob rhyw, yn

gryfach nâ'r wanc am ysglyfaeth, a'r syched am waed. Ac yma mae yn anmhosibl peidio sylwi fod apeliadau crefydd bur oll yn cyrhaedd i waelodion y galon, ac nid dim ond goglais ychydig ar y wyneb. Nid oes dim *artificial*—o waith celfyddyd a dychymyg dyn, o ryw ddyfais dwyllodrus—mewn crefydd bur; hi gwyd o natur dynoliaeth; y mae tystiolaeth iddi yn nghyfansoddiad dyn; mae ei nerth yn gorwedd yn yr hyn sydd gyffredin i'r hiliogaeth. Y pwnc penaf mewn crefydd—isaf at y sylfaen, uwchaf at berffeithrwydd y peth nas gellir ei hebgor—yw cred lwyr a hollol yn nghariad ac ewyllys da y Creawdwr. Gall coelgrefydd ffynu lle byddo ofn; ni ffyna crefydd bur ond lle byddo cariad; ac i'r graddau y byddo cariad yn bwrw allan ofn, i'r graddau hyny y bydd cynnydd mewn crefydd bur a dihalogedig. Ond cael y gred hyfryd hon yn nghariad dianwadal Duw, yna, ni lethir ni gan ofnau o un math; er gofid, er trallod, er pob rhyw wasgfa, ni chawn ein gorchfygu; pasia'r amheuon ymaith, try nos dywyllaf ein hamheuaeth yn oleuni o'n hamgylch, a gorfoleddwn yn serch pur y Tad cyffredinol, fel y llawenha y plentyn yn ngwenau ei fam. Yn awr, mae darluniad o'r hyn yw anian ac enaid crefydd ynte, sef ymorphwysiad ar gariad y Creawdwr, yn y gymdeithas bur a boreu rhwng y fam a'r plentyn. Y mae yn canlyn mai nid peth croes i natur yw crefydd. Mae holl natur yn grefydd mewn gwirionedd; grisiau yw y cwbl yn natur i esgyn ar hyd-ddynt i'r adnabyddiaeth o'r Duw mawr, a'n priodol ymddiried ynddo, a phe byddai crefydd yn groes i natur dyn, rhyw dasg galed annhraethol fuasai dyfod i'r meddiant o honi. Ond gan fod natur—teimladau a serchiadau naturiol—yn ein helpu iddi bob cam, ymddengys yn eglur fod y Bod mawr wedi bwriadu i'w chysuron hi ddyfod yn feddiant i'r holl hil ddynol. Nid yw ffyrdd y fam yn *berffaith ddealladwy* i'r plentyn ar y pryd. Etto, hi wyr oreu pa fodd i drefnu yr hyn sydd lesiol iddo. Nid oes gwên ar wyneb y fam bob amser, etto, mae ei serch yn para byth heb ddiffygio.

Pwy sydd heb wybod am ei *hamynedd?* Sut mae yn cyd-ddwyn â gwendidau ac angenion ei phlentyn! A oes eisieu cymhwyso hyn at y Tad goruchaf? Chwi a wnewch hyn drosoch eich hunain.

> "Mae'r byd i gyd yn mreichiau'r Tad,
> Cyfled â'r byd ei gariad rhâd;
> Cara'r pechadur mwya' 'i faint
> Fel y mae'n caru'r pena' o'r saint."

Y fam a wyr oreu pa fodd i ddenu ei phlentyn i ddiddigrwydd a sirioldeb. Mae ganddi hi ffyrdd na wyr neb arall am danynt. Megys mewn dwfr y mae wyneb yn ateb i wyneb, yr etyb calon y fam i galon y plentyn. Mae rhyw *chords* dirgelaidd yn natur y ddau mor hen â'r greadigaeth nad oes dim gwahanu arnynt. Pan grwydra'r plentyn, hi wyr oreu pa fodd i'w gael yn ol. Hi deifl reffynau cariad pur am dano, a daw yn ol heb yn wybod iddo ei hun. Ai nid fel hyn mae ein Tad o'r nef yn ymddwyn at ei blant. Egyr ei fynwes fawr dadol, yr hon pan wel ei blentyn, er wedi crwydro yn mhell, efe a ddychwel yn ei ol. Gwyr ef ein natur ni, a'r ffordd i gyffwrdd â phob tant yn ein natur.

Gwyr yn union pa fodd i'n dwyn yn ol; dengys i ni ei gyfiawnder, ei gariad, ei drugaredd, a'i ewyllys da. Yn mha le? Pa fodd? Yn mhob lle, yn mhob modd, ond yn benaf, trwy ei fab, ein Harglwydd Iesu Grist, yn yr hwn y daw cyfoeth ei ddaioni ef, ei ddyoddefgarwch, a'i ymaros i'r golwg. Yn yr Iesu y gwelwn oreu pa fath yw; yn yr Iesu y tanbeidia ei gariad, fel nad oes modd i ni barhau bellach i ddweyd "Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c. O! hyfryd olwg a gawn arno yn addysg yr Iesu. Pwy a ofna, a ddigalona, a amheua mwy? Efe a'n dysgodd—

"Os dynol dadau a mamau plant
A garant eu hiliogaeth,
Pa gymaint mwy y câr Duw Iôn
Drigolion holl naturiaeth?"

Gorphenaf, 1863.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cynnaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cymdeithas uchod yn Llandyssul, ar y 3ydd a'r 4ydd o Orphenaf. Un peth a roddai ddyddordeb neillduol i'r gweithrediadau oedd agoriad y capel newydd—Capel y Graig. Y mae gwasanaeth Undodaidd wedi bod yn cael ei gario yn mlaen yn Llandyssul, yn achlysurol, er's blynyddoedd meithion bellach; ond yn mis Ebrill, 1868, y dechreuwyd cynnal gwasanaeth rheolaidd drwy ymdrechion unedig y diweddar Barch. W. Thomas, a'r Parch. T. Thomas. Ar ol cynnydd graddol am ychydig flynyddoedd, ymgymmerodd y Parch. W. Thomas â chario'r gwasanaeth yn mlaen wrtho'i hun; ac o dan ei weinidogaeth ef, ac un ei olynydd, y Parch. W. James, B.A., y mae y cynnulliad wedi myned ar gynnydd hyd nes yn awr y mae llafur blynyddoedd wedi ei wobrwyo â theml deilwng yn mha un i gyfarfod er addoli y Duw byw. Y mae yr adeilad yn ol cynllun Mr. John Wills o Derby, ac yr ydym yn beiddio meddwl ei bod yn un o'r eglwysi harddaf yn y Dywysogaeth. Saif ar le swynol iawn, ac y mae ei sylfaen ar y graig, fel y dylai sylfaen pob Eglwys fod. Y mae y trefniadau mewnol yn hynod gyfleus, y *vestry* y fath fel ag i ffurfio rhan o'r capel pryd bynag y bydd angen am hyny, ond etto wedi ei gwahanu yn hollol oddiwrtho ar amgylchiadau arferol. Mae'r *ventilation* yn rhagorol, ac y mae yn y capel ddarpariaethau er galluogi y siaradwr i siarad yn rhwydd, a'r gwrandawr i glywed heb unrhyw *strain*. Nid yw ond cyfiawnder i ddweyd mai i ymdrechion y diweddar Mr. John Jones, fel cadeirydd y *Building Committee*, y mae Undodiaid Llandyssul yn ddyledus am yr adeilad prydferth sydd yn eu meddiant. Och! iddo gyfarfod â'r fath ddiwedd truenus, a hyny y nos cyn agoriad y capel. Edrychai yn mlaen gyda dyddordeb nid bychan er cymmeryd rhan yn y gweithrediadau; ond nid oedd i fod, ac yn nghyfarfodydd

dyddiau Iau a Gwener yr oedd rhyw deimlad o dristwch nas gellir yn hawdd ei ddesgrifio. Teimlai pawb nid yn unig fod bywyd cyfiawn ac anrhydeddus wedi ei orphen, ond hefyd fod cyfaill personol wedi ei golli. Parlyswyd hyd y nod y gweithiwr a'r crefftwr gan y newyddion, ac am filldiroedd oddiamgylch yr oeddynt yn analluog i weithio. Trist oedd gweled y capel wedi ei wisgo â du ar ddydd ei agoriad.

Yr oedd y gweinidogion canlynol yn bresenol,—Parchn. Dr. Vance Smith, H. Ierson, M.A., T. Thomas, R. J, Jones, M.A., W. Rees, J. Davies, R. C. Jones, J. Evans, J. Williams, W. Davies, J. H. Davies, W. Parry, W. James, B.A., T. Lloyd Jones (Liverpool), J. G. Evans (Oxford), E. D. P. Evans, T. James, M.A. (C.M.), T. P. Phillips (A.), J. James ac E. Lewis (B.). Derbyniwyd llythyrau, &c., oddiwrth y Parchn. E. W. Lloyd, T. L. Marshall, J. E. Manning, M.A., a W. J. Davies, yn hyspysu eu hanallu i fod yn bresenol; ac hefyd oddiwrth y Parch. J. Lloyd Jones, Chicago, a F. L. Hosmer, Cleveland, U.D.A., yn datgan eu dymuniadau da ar agoriad y Capel. Sylwasom fod hefyd yn bresenol,—H. P. Cobb, Ysw., a Mrs. Cobb, Castle Green, Aberteifi; J. Lister, Esq., Hampstead; Tobit Evans, Ysw., Neuadd; Dr. Evans, Llandyssul; a boneddigion dylanwadol ereill o'r gymmydogaeth. Yn yr holl gyfarfodydd yr oedd y capel a'r *vestry* (yn alluog i gynnwys oddeutu 300) yn orlawn, a llawer yn gorfod aros y tu allan.

Dechreuodd y Cyfarfodydd Agoriadol Nos Iau, pryd y pregethwyd gan y Parchn. R. C. Jones ac R. J. Jones. Boreu dydd Gwener dechreuwyd gan y Parch. J. Davies, a phregethodd y Parch. T. Thomas yn Gymraeg, a'r Parch. H. Ierson yn Saesneg. Gwnawd casgliad ar ddiwedd y cyfarfod hwn. Fe ellir hyspysu y gobeithir, pan y gwneir y cyfrifon i fyny, y bydd y capel yn rhydd oddiwrth ddyled. Yn y prydnawn cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y capel, gweinidog y lle yn y gadair. Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad â Mrs. Jones, Gellifyharen, ac â rhieni Miss Howell, o Liverpool, yn eu galar a'u tristwch presenol. Safodd y gynnulleidfa luosog i fyny mewn dystawrwydd, yr hyn a ychwanegai yn fawr at ddifrifoldeb yr amgylchiad. Wedi hyny traddodwyd anerchiadau gan y Parchn. H. Ierson, J. Davies, T. Ll. Jones, Dr. Vance Smith, R. J. Jones, a Mr. Cobb. Cymmerodd y Parchn. J. Evans, W. Rees, a W. Davies, hefyd ran yn y gwasanaeth. Chwareuwyd yr *American organ* newydd gan Mrs. James, gwraig y gweinidog, ac yr oedd y canu drwy yr holl gyfarfodydd yn galonog, ac yn llawn yspryd.

Yn yr hwyr cynnaliwyd *conference* yn *vestry* y capel i ystyried y priodoldeb o sicrhau addysg gwell yn y celfyddydau i fyfyrwyr Coleg Caerfyrddin. Pasiwyd yn unfrydol benderfyniadau yn deisyf ar i'r *Presbyterian Board* gymmeryd y cwrs mwyaf ymarferol er sicrhau y diwygiad hwn sydd â chymmaint o angen am dano. Dadleuodd y gweinidogion a'r lleygwyr oeddynt yn bresenol yn gryf dros ddanfon myfyrwyr Caerfyrddin i un o *University Colleges* Cymru—teimlad y cyfarfod yn fawr yn ffafr Aberystwyth.

Cyf.

Y DIWEDDAR DANIEL THOMAS, YSW.,

Perchenog Ager-lowaith y Dinas, plwyf Llantrisant, yn nghyd â rhai glofeydd ereill yn y gymmydogaeth.

(BYRGOFIANT.)

PAN ymddengys personau mewn gwlad â'u hamcanion yn ddyrchafedig, eu gweithgarwch y tu hwnt i'r cyffredin, eu penderfynoldeb yn ddiysgog, ac haelfrydigrwydd eu calonau yn ymddysgleirio o'u cwmpas, gan oreuro y cymeriad, wele rai teilwng o gofnodiad i'r oesau a ddel; a diamheu mai cymeriad o'r fath oedd gwrthddrych ein cofiant—Mr. Daniel Thomas yr ieuengaf, cyfenwydd ei dad, ac arolygydd gloweithiau y Dinas am amryw flynyddau. Ganwyd ein harwr ger y weithfa hon ar yr 16eg o Ionawr, 1849. Treuliodd foreu ei oes trwy fynychu ysgol y lle am rai blynyddau, ac am y flwyddyn ddiweddaf o'i addysg foreuol cafodd y fantais o fod dan dywysiad yr ysgolhaig cyfarwydd mewn mesuroniaeth a phrif elfenau gwybodaeth—Mr. Thomas Lloyd, y pryd hwnw yn Merthyr Tydfil, ond sydd yn awr yn sefydledig yn Mhontypridd.

Nid hir y parhaodd tad gwrthddrych ein cofiant i arolygu gweithfa y Dinas wedi dychweliad ei fab hwn o'r ysgol; ymgymmerodd wed'yn â gloweithfeydd yr Adare a'r Brithweunydd, ac yma y cafodd ein harwr ei brif addysg fel arolygydd glowaith o dan ei dad, a llygad ei dad ydoedd; bu efe yn nglyn â'i frawd, Isaiah Thomas, yn dwyn allan gynlluniau ei dad am beth blynyddau yn y gweithiau hyn, ac yr oedd glowaith Blaenclydach ganddynt hefyd yn gydran â Mr. Edmund Thomas, yn awr o Maendy Hall, brawd arall iddynt. Mr. Daniel Thomas, y mab, fyddai yn nhrafodaeth yr arian, y Banc, a fynychaf yn mhen y gwerthu o'r oruchwyliaeth yn ystod bywyd ei dad; ac ychydig cyn ymadael â'r byd ewyllysiodd ei dad y gloweithiau iddo, gan osod arno i dalu mil o bunnau i Isaiah ei frawd, ac amrywiol gymmunroddion ereill i'w frodyr a'i chwiorydd, ac hefyd i dalu hanner cant punt yn y flwyddyn i'w fam; ond byddai y tâl blynyddol iddi hi yn ymylu fynychaf ar y gymmaint arall yn y flwyddyn, heblaw manteision ereill, sef, rhoddi i'w fam yr oll o'r elw deilliedig oddiwrth waith Blaenclydach, a gwnelai hyn mor wylaidd, fel y deuai yn anhawdd wedi hyny i ddarbwyllo ei fam, wedi i Mr. Dan. briodi, ac ymadael â chartref ei fam, nad iddi hi y perthynai yr holl elw oddiwrth waith Blaenclydach yn ol ewyllys ei gwr; ond ni fu ei briodas yn foddion iddo ef gwtogi tâl blynyddol ei fam.

Rhoddodd weithfeydd Adare a Brithweunydd i fyny, ac ymunodd â Mr. James Thomas, un hen gyfarwydd â gweithfeydd tanddaearol, a suddasant rhyngddynt ddau bwll i'r glo ager ar dir Ynyshir, Cwm y Rhondda Fach, tir perthynol i'r Parch. D. W. Williams, Fairfield, a'i nai. Yr oedd y Thomasiaid hyn yn gydranyddion gydag ereill yn nglowaith y Dinas Isaf hefyd, ond penderfynasant ymranu—Ynyshir i fod yn eiddo Mr. James Thomas, a'u cydran hwynt ill dau o lofa'r

Dinas Isaf i Mr. Dan. Thomas, a daeth yn fuan wedi hyny holl waith y Dinas Isaf i'w law.

Ar yr 11eg o Ebrill, 1877, dygwyddodd anffawd beryglus yn ngwaith glo Tynewydd, perthynol i'r dywededig James Thomas, trwy i genllif aruthrol o ddwfr dori i fewn i'r gwaith, a chau nifer o'r glowyr i fewn, heb ffordd yn y byd i ddianc, nâ chyssylltiad yn unwedd âg ereill, i'w noddi ag angenrheidiau bywyd; a buont felly yn gaeth am naw diwrnod o'r bron. Enwogodd ein harwr ei hun yma, trwy ymdrechion diflino, gyda deheurwydd rhyfeddol, a llwyddodd, yn nglyn âg ereill, i gael y glowyr allan yn ddianaf yn yr amser cymharol fyr o naw diwrnod, pan y cymmerasai amrai fisoedd i ddihysbyddu y fath lyn o ddwfr o'r weithfa yn ol y dull arferol o sugno dwfr o'r fath le, er cael y dynion allan, ond nid y pryd hwnw yn fyw. Derbyniodd ef a dau ereill aurdlysau o'r radd uchaf, a daeth ei Arglwyddiaeth, Maer Llundain, i waered i dalu diolch cyhoeddus, yn enw ein Grasusaf Frenines, i'r gwroniaid a gymmerasant ran yn yr ymdrechfa, a gwisgo'r bathodau iddynt. Derbyniodd amrai ereill hefyd fathodau o'r ail radd, am eu cydymdeimlad a'u cynnorthwy ar yr achlysur.

Yn mhen dwy flynedd wedi y danchwa echryslawn a gymmerodd le yn mhwll y Dinas, pryd y collodd 63 o ddynion eu bywydau, ymgymmerodd ein harwr â'r lofa hono trwy gytundeb â'r Milwriad Hunt; efe i fod yn berchen y lofa trwy dalu rhyw bris y dynell am y glo a weithid allan, ac i fod yn gyfrifol am yr oll. Nid oedd ond saith o gyrff wedi eu cael allan yn ystod y ddwy flynedd o'r 63 a gollasant eu bywydau trwy y danchwa. Penderfynodd Mr. Thomas wneud ymdrech deg i gael allan weddillion y lleill o'r anffodusion mor fuan ag oedd alluadwy, a thrwy ddyfalbarhad mewn ymdrechion i glirio allan erchyll gwympiadau, dihysbyddu dyfroedd oeddynt ar y ffordd, ac agor heolydd newyddion mewn manau, a gweithio hefyd gymmaint ag a allesid o lo i'w gynnorthwyo yn yr anturiaeth, llwyddodd i ddwyn i fyny 51 o honynt, ac nid hir y buasai pe cawsai fyw cyn mynu gweled y pump ereill i fyny.

Ar y 27ain o Ionawr, yn y flwyddyn hon, cymmerodd tanchwa alaethus le yn nglofa Penygraig, yr hyn fu yn achlysur iddo ef, yn unol â'i aidd arferol am sefyll bywydau ei gyd-ddynion, anturio yn ormodol i afael y nwy ofnadwy sydd yn canlyn tanchwäau, a cholli ei fywyd gwerthfawr ei hun yn mlodau ei ddyddiau yn yr ymdrech, ond aflwyddianus y tro hwn i achub bywydau rhai ereill. Nid oes genym ond hyderu y caiff ei hoff weddw, ei fam oedranus, a'i berthynasau parchus ereill, nerth oddi uchod i beidio gollwng gormod ffrwyn i'w teimladau galarus yn yr herwydd. Amgylchiad ag oedd mor anhebgor yn y brwdfrydedd o garedigrwydd a'i meddiannai ef ar y pryd, etto, truenus dros ben oedd cael ei golli o'n plith yn y fath fodd; ond dyna, nid yw deddfau anian yn esgusodi neb—ni waeth pa mor ddaionus fyddo yr amcanion, os eu troseddu a wneir, rhaid goddef y canlyniadau yn ol natur neu eithafion y trosedd. Gwel ar hyn draethawd rhagorol Mr. George Combe ar "*Gyfansoddiad dyn yn ei berthynasau â gwrthddrychau allanol*," newydd ei gyhoeddi gan Daniel Owen a'i Gyf., Caerdydd.

"myned i wlad bell i dderbyn teyrnas iddo ei hun." Ar y ddaear mae golygfa (*scene*) y ddammeg, ac ar y ddaear mae y dinasoedd ar ba rai y rhydd efe awdurdod i'w weision ag oeddynt wedi bod yn ffyddlon iddo yn ei absenoldeb. Mae yn canlyn, gan hyny, mai i'r ddaear, lle y bu yn y cnawd, y mae etto i ddychwelyd a theyrnasu, wedi derbyn awdurdod oddiwrth Ymherawdwr yr holl fydysawd. Dealled y darllenydd mai nid cyfeiriad sydd yma at ei ddyfodiad cyntaf i ddinystr Jerusalem, oblegyd y pryd hwnw ni alwodd yn nghyd ei weision i wneyd cyfrif â hwynt. Nyni yw y gweision, a phawb yn mhob oes ag sydd wedi derbyn breintiau gwerthfawr yr Efengyl. Mae amser y cyfrif i ddod, ond nid cyn y dychwel efe wedi derbyn ei deyrnas. Yn sydyn y bydd ei ddychweliad, am hyny byddwn barod.

Yn nesaf, proffwydoliaeth ryfeddol yr Iesu am y dinystr dychrynllyd ag oedd i orddiwes y deml, y ddinas, a'r genedl. Mat. xxiv.; Marc xiii. a Luc xxi. Un o'r proffwydoliaethau hynotaf yn yr holl Ysgrythyrau ydyw hon. Cynnwys gyfeiriad at ddau ddyfodiad. Y cyntaf i'r dinystr hwnw, a'r ail pan ddêl wedi derbyn y deyrnas. Mae rhyw beth mor gyffelyb yn y ddau fel y mae meddylddrych yr Iesu yn yr olygfa broffwydol o flaen llygaid ei ddeall, dan bwys y llaw ddwyfol (Ezec. iii. 14), megys yn ymlithro yn raddol (*gently glide*) o un i'r llall heb ei fod yn wybodus o'r gwahaniaeth. Canfyddir yr un fath weithrediad proffwydol, yn enwedig yn Isaiah. Pan fyddai y *Röé*, neu y gweledydd, dan bwys y llaw ddwyfol, a golygfa gwaredigaeth ei genedl o gaethiwed Babilon o flaen llygaid ei ddeall, rhydd hon le yn raddol i waredigaeth annghydmarol mwy pwysig, sef gwaredigaeth Saint Jehofah o gaethiwed angau a'r bedd. Ymddengys fod y proffwyd ar y pryd mewn cyflwr hollol oddefol ond yn feddiannol o'i gynneddfau naturiol. Nid annhebyg oedd yr olygfa i'r un a ymddangosai i edrychwr ar ben bryn uchel. Cenfydd yn eglur y gwrthddrychau nesaf ato, ond fel y byddo y pellder yn cynnyddu â yr olygfa yn fwy egwan. Ymddengys y gwrthddrychau mwyaf nodedig rhyngddo a'r terfyngylch fel yn cyffwrdd â'u gilydd, tra ar yr un pryd y byddai rhyngddynt gwmydd a maesydd helaeth, coedydd, afonydd, a phentrefi, ond yn anweledig iddo ef ar ben y bryn. Felly yr olygfa oruwchnaturiol o flaen y proffwyd. Byddai y gwrthddrychau nesaf ato yn eglur, ond am y rhai a safai rhyngddo a'r terfyngylch, ymddangosent iddo fel yn cyffwrdd o ran amser, tra fyddai rhyngddynt, fel y maesydd, &c., yn yr olygfa naturiol, gannoedd, os nid miloedd o flynyddau, ond yn hollol guddiedig i'r proffwyd. Gallasai feddwl eu bod oll i gymmeryd lle ar yr un amser. Tebyg i hyn oedd yr olygfa o flaen yr Iesu pan y traddododd y broffwydoliaeth hon. O ran amser, ymddangosai y ddau ddyfodiad iddo fel yn cyffwrdd. Mae yr eglurhad hwn yn symmud yr anhawsdra a deimlir gan rai esponwyr i gyssoni Mat. xxix. 34, a'r bum adnod flaenorol.

Gyda golwg ar y ddau ddyfodiad, mae gwahaniaeth mawr rhyngddynt. Yn y cyntaf yr oedd yr Arglwydd Iesu yn *anweledig*, er mewn gwirionedd, mai efe, ac nid Titus Vespasian, oedd y *Sar Sarim*, neu y *Commander-in-Chief* ar fyddinoedd y Rhufeiniaid. I olwg dynion Titus

oedd y cadfridog, ac yn ymddangos megys yn ymladd yn erbyn y Sar Sarim, neu "tywysog y tywysogion," fel y cyfieithir geiriau Daniel yn pen. viii. 25. Fel yr oedd Nebuchodonosor a'i fyddinoedd yn weision Jehofah (Jer. xx. 9) yn ninystr y deml gyntaf, felly yr oedd Titus a'i fyddinoedd yntau yn ninystr yr ail. Yr Arglwydd Iesu oedd y Sar Sarim. Nid oedd Titus ond offeryn yn ei law i wasgaru y genedl wrthnysig, a gosod diwedd ar y deml a'i haddoliadau. O hyny allan yr oedd teyrnas nefoedd mewn grym (Marc ix. 1) yn gymmaint ag fod parotoadau ar ei chyfer i gael eu gwneuthur erbyn yr ail ddyfodiad. Y pryd hwn yr oedd rhai o'r dysgyblion yn fyw ac heb "brofi angeu."

Yn yr ail ddyfodiad bydd yr Iesu yn *weledig* (Mat. xxiv. 30). Holl dylwythau y ddaear a'i gwelant "yn dyfod ar gymmylau y nef." "Pob llygad a'i gwel." Dat. i. 7. Pallai amser i mi helaethu rhagor ar y broffwydoliaeth nodedig hon. Gobeithiaf y gwna y sylwadau hyn, er yn fyr, symmud rhai rhwystrau oddiar y ffordd i'w deall. Os oes gwirionedd yn y broffwydoliaeth, a phwy feiddia amheu, mae'r Iesu etto i ddychwelyd i'r byd, ac i sefydlu teyrnas yr hon a faluria holl lywodraethau y cenedloedd.

Y dystiolaeth olaf a ganiata y llythyr hwn i mi nodi yw Matt. xxv. 31—46. "A Mab y dyn, pan ddel yn ei ogoniant, a'r holl angelion sanctaidd gydag ef, a eistedd ar orsedd ei ogoniant." Ar y ddaear y bydd yr orseddfainc, ac nid yn rhywfan yn mhell yn y ffurfafen, oblegyd, fel y sylwyd yn barod, ar y ddaear mae yr holl olygfa (*scene*), a thrigolion y ddaear sydd i gael eu cydgasglu ger ei fron ef—yr holl genedloedd. Mae hyn etto heb gymmeryd lle; ond os nid twyllwr neu "freuddwydiwr" oedd yr Iesu, y mae efe i ddyfod, ac y mae y cenedloedd i gael eu barnu. Nis gellir yn hawdd ysbrydoli yr hysbysiad hwn. Pa mor gynted y daw nis gwyddom. Wrth bob nodau a gawn yn yr Ysgrythyrau, nid yw yr amser yn mhell iawn.

Mae llawer ereill o ddywediadau yn yr efengylau yn dysgu yr un peth, sef fod yr Iesu i ddychwelyd, ac mai ar y ddaear y bydd ei deyrnas. Nid oes genyf fi ond eu gadael i ddiwydrwydd pob darllenydd diragfarn a deallus i'w nodi allan drosto ei hun. Dichon y gall eu deall yn well yn awr pan wyf wedi symmud peth o'r llen oddiar lygaid ei ddeall. Beiddiaf ddweyd mai swm a sylwedd yr holl Ysgrythyrau yw teyrnas Crist ar y ddaear yn y dyfodol. Gwn fod yr athrawiaeth yn ddyeithr iawn i'm hen frodyr Undodaidd, fel y bu i minau unwaith, ac y mae yn bosibl fod rhai yn edrych arnaf fel wedi dyrysu peth yn fy synwyrau. Dywedwyd yr un peth am Paul, ac hyd y nod am yr Iesu ei hun. Ond nid yw felly. Geiriau gwirionedd a sobrwydd yr wyf yn eu traethu. Chwilied y darllenydd yr Ysgrythyrau, a barned y peth yr wyf fi yn eu dywedyd, a bendithied y Tad nefol ef â'r goleuni sydd yn Nghrist Iesu.

Birkenhead, Gorphenaf 8. D. L. Evans.

Car dy gymmydog fel ti dy hun; ond nid oes eisiau i ti dynu i lawr dy berthi a'th gloddiau er porthi ei ddefaid, ei wartheg, a'i *foch*.

Gallai efrydu y gwaith hwn fod yn foddion effeithiol i ereill ymgadw tufewn cylch eu gweithrediadau priodol, yn eu perthynas â'r cyfansoddiad dynol.

J., Blaenllechau.

Y PAROUSIA YN YR EFENGYLAU.

Syr,—

Cyn dechreu, caniatewch i fi ddweyd fy mod yn teimlo yn ddiolchgar i chwi am gyhoeddi, ac i Mr. Jenkin Howell am gyfieithu, "Addysg y deuddeg Apostol." Os nad yw y llawysgrif gwbl mor hened ag y barna Esgob Bryennios, mae Pen. xvi. yn brawf digonol, yn fy marn i, ei bod yn hûn nag oes Origen, Dionysius o Alexandria, ac ereill a Blatoneiddiasant y grefydd Gristionogol. Fel y mae yn hyspys i bawb hyddysg yn hanes yr Eglwys foreuol, yn eu hamser hwy yr ymlusgodd iddi yr arfer o ysprydoli teyrnas nefoedd—arfer ag sydd wedi parhau trwy yr oesau hyd yn awr, ac yn ddigon tebyg a barhau hyd nes y dêl Crist. Tan ei gwraidd mae yr athrawiaeth Blatonaidd o "enaid anfarwol" mewn dyn, yr hon sydd wedi amddifadu yr Efengyl o'i bywyd, a hyny trwy wneuthur adgyfodiad Crist o feirw yn ddirym a diwerth. Yn awr at y pwnc.

Hyspys yw i bawb ag sydd wedi darllen fy llythyr yn Rhifyn Gorphenaf, beth ddeallaf wrth y gair Groeg parousia. Ni chaniata amgylchedd llythyr, a hwnw o angenrhaid yn fyr, i fi ond nodi ychydig o'r manau mwyaf amlwg a brofant fod yr Arglwydd Iesu ei hun yn tystiolaethu y bydd iddo etto ddychwelyd ac i sefydlu teyrnas nefoedd ar y ddaear. Rhaid i mi adael allan yr holl fanau a arwyddant (*imply*) y parousia.

Un o'r manau cyntaf y cyfeiriaf sylw y darllenydd ato yw dammeg y deg morwyn (Mat. xxv. 1—13). Mae yn rhy faith i'w hadrodd yma. Troed y darllenydd ati. Fel pob un o ddammegion yr Iesu, mae yn hardd ac i'r pwrpas. Mae wedi ei sefydlu ar y cwstwm Iuddewig o briodi. Yr oedd yn arfer i'r gwr ieuanc hôl ei ddarpar-wraig o dŷ ei thad yn y nos. Yno y byddai llawer o ddefodau i'w cyflawnu, yr hyn a gymmerai i fyny rai oriau—mwy neu lai. Wedi gorphen y cyfan cludai ei wraig adref, a chydag ef y byddai cyfeillion a pherthynasau a wahoddwyd i'r wledd. Carient ffaglenau (*torches*) i oleuo y ffordd. O gymmydogaeth y priodfab elai merched ieuainc allan i'w gyfarfod a'i roesawu i'w dŷ, ond nid yn mhell. Carient lampau yn eu dwylo. Gan fod yr amser y deuai y cwmp'ni yn ansertenol, ac weithiau yn ymddangos yn faith i'r merched, naturiol fyddai i rai o honynt hepian, a phan y delai y waedd fod y priodfod yn dyfod, fel dynion a ddihunir yn ddisymwth o'u cwsg, byddent mewn dryswch. Byddai lampau rhai wedi diffoddi o eisieu olew. Tra fyddent yn taclu eu lampau, elai y priodfab i'w dŷ, a'i gyfeillion, a'r morwynion oeddynt barod pan

y daeth. Yna ceuid y drws fel na fyddai i ddyeithriaid i ymlusgo i mewn i'r wledd. Mor ddisymwth, medd yr Iesu, â dychweliad y priodfab, y daw y parousia. Bydd miloedd wedi cysgu a hepian, ac yn hollol anmharod. Y canlyniad trist fydd y cânt eu cau allan o'i deyrnas. "Gwyliwch, gan hyny," medd efe, "am na wyddoch na'r dydd na'r awr y daw Mab y dyn." A wyt ti, ddarllenydd, yn barod, a'th lamp wedi ei thrwsio, neu ynte yn un yn mhlith y miloedd ag ydynt dan ddylanwad "yr amryfusedd cadarn" yn meddwl na ddychwel byth? Cwestiwn dwys yw hwn.

Yn nesaf troed y darllenydd at Mat. xix. 28. "A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, y rhai a'm canlynasoch i, yn yr adenedigaeth, pan eisteddo Mab y dyn ar orsedd ei ogoniant, eistedd chwithau ar ddeuddeg gorsedd, yn barnu deuddeg llwyth Israel." Nid yw yn hawdd camsynied meddwl y geiriau hyn. Naill ai mae yr Arglwydd Iesu i ddychwelyd ac i sefydlu teyrnas ar y ddaear, neu ynte "breuddwydiwr" oedd, neu yr oedd yn twyllo ei ddysgyblion. Byddai y ddau olaf yn gyhuddiadau na feiddiai braidd yr annghrediniwr dewraf i'w dwyn yn ei erbyn. Gan hyny, y mae i eistedd ar orsedd ogoneddus, ac ar y ddaear y mae ei orsedd i fod. Y dysgyblion hefyd ynt i eistedd ar orseddau odditano i farnu llwythau Israel. Ar y ddaear y bydd y llwythau, o ganlyniad ar y ddaear y bydd y deyrnas. Mae hi hefyd i'w sefydlu yn y dyfodol, oblegyd yn y dyfodol y bydd yr adenedigaeth.* Wrth y gair hwn y mae i ni ddeall y cyfnewidiad sydd i gymmeryd lle yn nghyrff y saint yn yr adgyfodiad, sef yr un a grybwyllir gan yr Apostol pan y dywed "Efe a heuir yn gorff anianol ac a gyfodir yn gorff ysprydol" (I Cor. xv. 43). "Ond y mae deg o'r llwythau," medd rhyw un, "ar goll, a pha fodd y bernir dynion na sydd i gael?" Nid yw y deg llwyth yn hollol ar goll. Dychwelodd llawer o honynt o Babylonia gyda Judah a Benjamin. Byddant ar glawr ac yn wahanedig yn nheyrnas Crist. Gweled y darllenydd y modd y mae Palestina i gael ei rhanu y pryd hwnw yn mhlith y deuddeg llwyth. Ezec. xlviii.

Etto, prawf arall yw dammeg y gwr boneddig a aeth i wlad bell i dderbyn teyrnas iddo ei hun ac i ddychwelyd (Luc xix. 14—27). Mae yr un ddammeg hefyd wedi ei chofnodi gan Matthew (xxv. 14—30), ac yn agos yn yr un geiriau. Troed y darllenydd atynt a chymhared hwynt â'u gilydd yn ofalus. Y maent yn rhy faith i'w dyfynu yma. Traetha Luc i'r Iesu draddodi y ddammeg "am iddynt dybied yr ymddangosai teyrnas Dduw yn y fan." Sut nad oedd yn y fan os ydyw y dyb gyffredin yn wir, sef mai yn ngalonau dynion y mae? Gwel Rhifyn Mawrth. Mae y ddammeg wedi ei sylfaenu ar gwstwm boneddigion yr oes o fyned i Rhufain i ymbil ar yr ymherawdwr roddi iddynt orsedd eu gwlad a ddygwyddai fod ar y pryd yn wâg. Weithiau hefyd yr oedd yr ymherawdwr yn danfon am ryw un neillduol ag a fwriadai ei rhoddi iddo. Yr Iesu ei hun sydd yma i ddeall wrth y gwr boneddig. Adgyfododd o feirw ac esgynodd i'r nefoedd. Mae hyn yn gyfystyr â

* Gwel Schleusner a Wahl dan y gair *palingenesia*.

BEDDARGRAFF IOLO MORGANWG.

Er cof am Edward Williams (Iolo Morganwg), o'r Pentref hwn, Saer Maen, Bardd a Hynafiaethwr, yr hwn a anwyd yn Mhenon, yn mhlwyf cyfymlynol Llancarfan, ar y 10fed o Fawrth (hen gyfrif), O.C. 1746, bu farw Rhagfyr 18fed, O.C. 1826. Ei weddillion a orphwysant yn agos i'r man hwn.

Yr oedd ei feddwl yn gyflawn o Hanesion a Thraddodiadau Cymru: myfyriai Natur hefyd yn ei holl weithrediadau. Nid oedd ei gorff ond gwanaidd, yr hyn a'i gwnai yn lled analluog i ddylyn ei alwedigaeth, ond Duw a'i cynnysgaethodd â galluoedd meddyliol cyflym, amynedd, ymchwiliaeth a deall cyflym; ac ni chymmylwyd hwy gan iseledd ei amgylchiadau. Ni fu erioed mewn ysgol, etto cyfranai yn helaeth tuag at, a daeth yn awdurdod gydnabyddol mewn Llenyddiaeth Barddonol ag Hanesiol. Ei ymddygiad gwylaidd, ei dymher serchog, a'i wybodaeth eang, a'i gwnelent yn ymwelydd groesawus yn mhlas y cyfoethog, yn gystal ag yn mwthyn y tlawd; ac y mae llawer yn Ngwent a Morganwg yn cofio yn barchus am dano, pa rhai, ynghyd ag ereill, a werthfawrogant ffrwyth ei athrylith, a adeiladasant y cofnod hwn O.C. 1855. Ofnai Dduw, a rhodiai yn ostyngedig ac uniawn gyda'i gyd-ddynion. Y Bardd Teulu Breninol Southey a'i darluniai fel hyn: —

> "Aeth gyda mi
> Iolo, hen Iolo, 'r hwn a wyr
> Rinweddau llysiau mynydd ban a dol,
> Neu gysgod gwyrdd, neu dawel wely nant,
> A phob rhyw serch at Wyddor neu at gân,
> Drosglwyddwyd in' gan Feirdd a Doethion hen." *Madoc.*

Ei Fab Taliesin Williams (Taliesin ab Iolo Morganwg), Ysgolfeistr, Bardd Cadeiriol Eisteddfod Fawr Gwent a Dyfed, a gynnaliwyd yn Nghaerdydd, O.C. 1834. A anwyd yn Nghaerdydd Gorphenaf 9fed, 1787. Bu farw yn Merthyr Tydfil, Chwefror 16eg, 1847. Ei weddillion a orphwysant yn yr un bedd ag eiddo ei Dad.

Ad-ysgrifenwyd yn Eglwys Trefflemyn, Hydref 11*eg*, 1883, *gan* E. G.

Y DYNOL FLODEUYN.

Aiff defnydd bodolaeth
  Y dynol flodeuyn
Drwy beiriant marwolaeth
  Yn berffaith ddilychwin;
A dyn y dyfodol,
  Ar ol ei ddadebru,
Fydd destyn sylweddol
  I'r angel 'ryfeddu.

James Herbert,

JOHN WICLIFFE.

Dywedir ystori yn hanes Moses am y modd y daeth efe ryw ddiwrnod i blith yr Israeliaid wedi bod am ychydig amser oddiwrthynt, ac a'u cafodd hwynt wedi syrthio i ffyrdd pechadurus y cenedloedd amgylchynol, ac yn addoli eilun aur. Dywedir iddo sefyll yn mhorth y gwersyll, a llefain allan, "Pwy sydd o du yr Arglwydd? deued ataf fi!" A phan y clywsant lais eu harweinydd, i ddyrnaid bychain o ddynion adael y dorf fawr, ac addef yn ddiofn yr hyn a ystyrient hwy oedd *right*. Feallai eich bod wedi meddwl weithiau beth fuasai y canlyniad pe byddai meibion gwrol Lefi wedi cilio yn ol, ac ofn dweyd arnynt fod eu cydwladwyr yn gyfeiliornus. Digon tebyg y buasai y fath weithred wedi cyfnewid hanes y genedl, ac na fyddai yr Iuddewon wedi dysgu i'r gweddill o'r byd, fel y gwnaethant mor ardderchog, y ffydd mewn un Duw. Mae hwn yn hen hanes y gwyr pawb am dano. Mewn amseroedd diweddar dywedir hanesyn arall sydd yn dysgu yr un wers, am lencyn bychan o'r enw George Arthur, yr hwn, ar ei waith yn dyfod o'i gartref hapus yn y wlad i ysgol fawr i blith bechgyn llawer hŷn nâg ef, y rhai oeddynt wedi annghofio ffyrdd uniondeb, a welodd ei fod wedi syrthio i blith bechgynos annghofus o feddyliau Duw. Gyda chalon ddidwyll at bobpeth oedd dda, ac heb un ofn y bechgyn yn chwerthin am ei ben, ac yn ei wawdio, penliniai lawr bob nos i ddweyd ei hwyrol weddi. Y diwedd fu, i gydwybodau y bechgyn gael eu deffroi trwy y weithred, a darfu i'w esiampl gyfnewid yspryd yr holl ysgol.

Yr oedd meibion Lefi, George Arthur, a channoedd o ddynion da a gwrol ereill, yn wyr, gwragedd, a phlant, yn fawr yn unig am iddynt siarad a gweithio allan y gwirionedd oedd ynddynt, y rhai nid oeddynt un amser yn celu y gwir, er fod pawb ereill yn gwahaniaethu oddiwrthynt. Mae holl ddiwygiadau mawrion y byd wedi codi yn y ffordd hon. Weithiau rhyw un dyn, bryd arall ddau neu dri, oeddynt yn cyflwyno eu hunain i Dduw, a thrwy siarad yn benderfynol beth bynag oedd Efe wedi ei osod yn eu calonau i'w ddweyd, y maent wedi arwain y ffordd, ac y mae dynion ereill wedi rhodio yn eu llwybrau. Yn y dyddiau presenol yr ydym ni yn cael ein tueddu i annghofio yr esiamplau mawrion y mae hanesyddiaeth yn eu rhoddi i ni, ac i gwestiyno, pan y byddom ni yn tyfu i wirionedd newydd, neu yn gweled y ffordd i fywyd mwy godidog, paham y dylem ni fod y cyntaf i dori allan o'r hen ffyrdd? Yr ydym yn meddwl y gwnawn aros hyd nes y byddo ereill yn gweled yr un fath a ninau, gan annghofio y bydd i'n hesiampl ni, feallai, eu harwain i'r gwirionedd. Felly, y mae yn ddyledswydd arnom i ddarllen a myfyrio hanes yr eneidiau gwrol yma, a chofio na ddylem gelu un gair na gweithred a fyddo yn foddion i arwain dynion i fywyd gwell. Mae bywyd llawer dyn heb erioed gael ei ysgrifenu; ond yr hwn, serch hyny, sydd wedi dylanwadu mor nerthol ar wareiddiad a chynnydd yr hiliogaeth a bywydau y mawrion ffortunus, sydd â'u henwau wedi eu cofnodi mewn bywgraffiadau. Nid oes dim mor

CREFYDDA A DIOTA.

Mr. Gol.,—Mewn rhifyn diweddar* dywedasoch mai anffyddlondeb *(insincerity)* yw pechod mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae yn ddrwg genyf wahaniaethu oddiwrthych; yr wyf yn credu mai *meddwdod* yw, ac yr wyf yn credu hefyd mai y gyfeddach—y llymeitan yma—yw andwyaeth cynnulleidfaoedd Cymru y dyddiau presenol. O! na feddwn ar ysgrifell ddigon hyawdl i ddesgrifio truenusrwydd a chanlyniadau erchyll y pechod yma, i ddynoethi ar gyhoedd gwlad y cynlluniau a'r ddyfais a wneir hyd y nod gan y sawl a alwant eu hunain yn grefyddwyr, i osgoi cyfraith y tir er mwyn boddhau eu blys aflywodraethus. Dywedai Bonaparte ei fod ef yn cael drygau yn wladgarwyr da. Yr oedd cariad at frandi yn rhoddi iddo bum' miliwn y flwyddyn, a charai wybod pa un o'r rhinweddau oedd yn talu cystal iddo. Rhaid addef fod ffeithiau yn gwireddu dywediad yr hen Ymerawdwr Ffrengig hyd y nod yn y cyfnod yma o addysg a gwybodaeth. Dadleua dynion o hyd mai ar y fasnach yma mae cyllid y wlad yn ymddibynu. "Difodwch hon (meddant), ac o ba le y cewch chwi yr arian sydd yn awr yn dyfod oddiwrth y trwyddedau, &c.; cawn ein trethu yn drymach nâg erioed, a byddwn yn *fankrupts* bob un!" O! anwybodusion, a wyddoch chwi mai dyma y gwrthddadleuon a arferid pan oedd y cewri Cobden a Bright yn ymladd brwydr bara rhad i chwi a minau? Yr *hue and cry* y pryd hwnw oedd, os tynid y trethi ar yr ŷd, o ba le yr oedd yr arian i ddyfod? Y mae amser wedi ein dysgu ni. Yr ydym am roddi terfyn ar dlodi. Yr ydym yn synu at nifer y gwallgofdai a'r tlotdai yn y wlad ffyniantus hon. Ond beth yw y ffeithiau? Y mae triugain o bob cant o'n gwallgofiaid tlodion i'w priodoli yn uniongyrchol i feddwdod. Mae triugain a deg o bob cant o'r troseddwyr yn ein carchardai a'n *reformatories* a'u dechreuad mewn meddwdod; ac y mae meddwdod yn gyfrifol am o leiaf bedwar ugain o bob cant o'n tlodion. Y mae yn agos i saith ugain miliwn o bunnau yn cael eu gwario yn flynyddol ar y diodydd meddwol, a llawer cnwd toreithiog o ŷd yn cael ei wastraffu i'w gwneuthur. Dywed Hoyle fod y grawn a ddefnyddir i wneud cwrw a gwirod bob blwyddyn yn ddigon i roddi 188 o dorthau o fara i bob teulu o bump o bersonau trwy yr holl deyrnas. Pe defnyddid y torthau hyn yn geryg palmant, gwnaent balmantu heol yn ddeg llath o led, a dwy fil o filldiroedd o hyd. Pe cludid y torthau mewn cert o'r pobtŷ, a'u taflu yn bentwr i'r afon Tafwys, a phe cyflogid ceftyl a chert at y gorchwyl, i gario pum' can' torth bob haner awr am ddeg awr y dydd, cymmerai ragor nâ 380 mlynedd i gwblhau y gwaith. Pwy yn ei iawn bwyll a allasai edrych ar y gwastraff cywilyddus hwn? Etto, byddai yn well i'r 190,000 torthau hyn gael eu taflu bob dydd i'r afon, a'u llwyr ddifrodi, nâ defnyddio y cyfryw ŷd fel y gwneir yn bresenol, i ddystrywio iechyd, i wastraffu meddiannau, ac i anfoesoli cartrefi y bobl.

---

*A fydd ein gohebydd cystal a rhoddi gwybod yn mha le y gwnaethom y sylw hwn?—Gol.

Dywedir fod meddwdod yn lleihau. Yr wyf yn amheu hyny. Edrychwn b'le y mynom, mae y gelyn damniol yma yn hylldremu yn ein gwyneb. Yn bresenol y dafarn yw eglwys y dyn tlawd, a'r ddiod yw ei Feibl. Mae'r gwyr mawr yn noswylio uwchben eu gwin, ac yn ymrolio yn eu cyfeddach, pan y mae ereill yn cysgu yn dawel. Y mae ein dynion ieuainc yn llithro yn ddifeddwl i yfed, a hyny ar y dechreu er cadw ymddangosiad, a pheidio tori ar y cwmni. O! na allwn beri iddynt weled drwg yr arferiad yma—y trwyth sydd yn gwenwyno yn araf ffynon gyssegredig iechyd, ac yn difa gwrid rhosynaidd ieuenctyd. Diwreiddiwn y drwg, a chawn wared o'r brychau ydynt yn warthrudd ar gymeriad moesol ein cenedl. Nid wyf yn dweyd ein bod ni yn waeth nâ rhyw enwad arall; ond yr wyf yn dweyd hyn, nad ydym ni yr hyn y *dylem* fod. Feallai, Mr. Gol., y caf ymdrin â'r pwnc hwn etto, ac y tynaf gymmaint o air drwg am fy mhen ag a dynodd Ap Ioan a'i dybacco.

Cwestiwn arall yr wyf yn ei ofyn i mi fy hun yn fynych yw hwn: "A ydym ni, Undodiaid, yn byw i fyny â'n proffes?" "The sad consequence of defection in principle," meddai Dickens, "is corruption in practice." Yr wyf yn cofio clywed son am hen ffermwr o'r oes o'r blaen yn myned o Sir Aberteifi i Forganwg i gymmanfa bregethu, ac ar ddiwedd un o'r oedfaon, cyfarfyddodd â chyfaill iddo, a chawsant ymgom ddifyr; ond yn ystod yr ymddyddan gofynodd y cyfaill iddo sut bregethwr oedd ei weinidog ef gartref. "Wel, 'wir," meddai yr hen wr, "'dyw e' fawr pregethwr, wyddoch ch'i; mae'n ddigon hawdd cael mwy doniol pregethwr, ond mae e'n sangu'n gwmws." A ydym ni yn "sangu'n gwmws?" Yr ydym yn siarad yn dda, ond a ydym yn gweithredu cystal? Pa bryd y daw tymp y dydd pan y cred dynion mewn *practical Christianity*, a phan y byddont yn byw Cristionogaeth i'w hyfed a'i bwyta, fel y delo yn rhan o'r cyfansoddiad? oblegyd, fel y dywed un, mae ein gweithredoedd fel y plant a enir i ni, yn byw ac yn gweithredu yn hollol annybynol ar ein bewyllys. Undodiaid! holwn ein hunain a ydym yn euog o'r diffygion yma, ac a ydynt yn achos rhwygiadau yn ein heglwysi? Ymddihatrwn oddiwrthynt, gwisgwn am danom arfogaeth y goleuni, a chofiwn ddywediad Emerson, fod hwnw yn pregethu yn odidog sydd yn arwain bywyd sobr a chyfiawn. Nis gallwn ddysgwyl perffeithrwydd yn neb, ond gallwn hawlio cyssondeb oddiwrth bawb.

CRWYDRYN.

CYMMERODD dadl wresog le yn ddiweddar yn Calcutta, India, ar y pwnc, "Pa un ai bywyd priodasol ynte bywyd sengl sydd fwyaf dewisol?" Methwyd dyfod i benderfyniad.

MAE yn bresenol 400 o feddygon menywaidd yn Unol Dalaethiau America.

GWEDDI, nid gorchfygu anfoddlonrwydd Duw y mae, ond dal gafael ar ewyllysrwydd Duw.

ddyddorol ac addysgiadol a hanes dyn mawr, a gobeithio y lloffwn ninau addysg oddiwrth fywyd John Wicliffe.

Ganwyd ef oddeutu y flwyddyn 1324, mewn pentref bychan o'r un enw, heb fod yn mhell o Richmond, yn Yorkshire. Yr oedd yn hanu o deulu parchus, ac yn berchen cryn gyfoeth. Yr oedd ei rieni wedi ei fwriadu i'r Eglwys, a chafodd ei feddwl ei gyfeirio yn foreu at yr astudiaethau oeddynt yn arwain i hyny. Anfonwyd ef i *Queen's College*, Rhydychain, yr hwn yr adeg hono oedd newydd ei sefydlu; ond yn fuan symmudwyd ef i *Merton College*, y coleg enwocaf yn yr holl *University*, lle y cyfrifid yr ysgolheigion yn ddeng mil ar hugain. Yma y cyssegrodd y rhan fwyaf o'i amser i astudio duwinyddiaeth, a dywedir nad oedd ail iddo yn yr holl wlad. Troai ei feddwl yn benaf at bethau crefyddol, ac yn enwedig at y llygredigaethau a ffynent yn yr Eglwys. Cyhoeddodd ei lyfr cyntaf ar "*The last times of the Church.*" Yn nechreu ei yrfa fel diwygiwr, cafodd gyfaill gwych yn Islep, Archesgob Canterbury, yr hwn a'i cododd i sefyllfa uchel mewn cyssylltiad â'r Brif Ysgol. Trwy ddylanwad Islep cafodd Wicliffe ei bennodi yn *warden* Canterbury Hall. Yr oedd yr *hall* yma wedi ei sefydlu ychydig amser cyn hyn gan yr Archesgob. Trwy reolau ei chyfansoddiad, yr oedd y swyddi cyssylltiedig â hi i gael eu dal gan bedwar mynach ac wyth offeiriad bydol (*secular priests*). Y *warden* blaenaf oedd mynach o'r enw Woodhall, yr hwn oedd yn methu llywodraethu ei hun, ac yn fuan dangosodd ei fod yn anabl ac yn anaddas i lywodraethu ereill. Yr oedd y cydymgais parhaus a fodolai rhwng y ddwy urdd yn arwain i gynhen ac ymryson; yr oedd ymrafaelion mynych yn cymmeryd lle, ac o'r diwedd aeth yn benbleth rhyngddynt ag awdurdodau y Brif Ysgol. Dim ond am ychydig amser y daliodd Wicliffe y swydd, oblegyd yn ngwanwyn 1366 y bu farw yr Archesgob Islep, ac yn y flwyddyn ganlynol dilynwyd ef yn y swydd gan Simon Langham, yr hwn oedd o hyd yn ffafriol i'r mynachod. Cafodd Wicliffe yn union ei dafu o'i le, a'r mynachod eu hadferyd i'w safle flaenorol. Apeliodd Wicliffe a'i gyfeillion at y Pab, ond i ddim pwrpas.

Ychydig cyn hyn yr oedd wedi bod yn frwydr galed rhwng y Pab Innocent III. a chenedl Lloegr. Yr oedd y Pab wedi bod yn trawsarglwyddiaethu ac yn gormesu ar iawnderau y bobl. Ond o'r diwedd aeth yr hen Innocent i'w fedd. Yr oedd dynion mwy eiddil wedi ei ddilyn ef ar y gadair Babyddol. Yr oedd Breninoedd Lloegr wedi esgyn i'r orsedd heb gymmeryd y llw o ymostyngiad i'r Pab, er eu bod yn parhau i dalu bob blwyddyn y mil o farciau yr oedd y Brenin John wedi addaw eu talu i drysorfa y Pab. O'r diwedd, yn nheyrnasiad Edward II., cafodd y tâl blynyddol yma ei atal rywfodd neu gilydd, ac ni chlywid un achwyniad am hyny oddiwrth y Pab. Yn y flwyddyn 1365, pa fodd bynag, darfu i'r Pab Urban V. adnewyddu yr hawl, a mynu yr ariau oddiwrth y Brenin Edward III. Yr oedd y deyrnged heb ei thalu er ys tair blynedd ar ddeg ar hugain, ac arweiniodd gwaith Urban yn ceisio ei hadgyfodi i ddadleuon blinion. Mynai y mynachod cardotaol, ac yn enwedig y Franciscaniaid, i'r Brenin Edward dalu y

deyrnged, gan ei fygwth, os na wnai, fod breniniaeth Lloegr wedi darfod am dani.

Yn ystod y ganrif oedd wedi myned heibio, oddiar pan arwyddnodwyd y Freinlen Fawr gan y Brenin John, yr oedd cynnydd Lloegr yn holl elfenau ei mawredd wedi bod yn rhyfeddol gyflym. Yr oedd wedi uno y Norman a'r Sacson yn un bobl; yr oedd wedi ffurfio ei hiaith; yr oedd wedi eangu ei masnach; yr oedd wedi diwygio ei chyfreithiau; yr oedd wedi sefydlu ysgolion a cholegau, y rhai oeddynt erbyn hyn wedi dyfod yn enwog; yr oedd wedi ymladd brwydrau mawrion, ac wedi enill buddugoliaethau dysglaer; yr oedd ei dewrder yn cael ei deimlo, a'i gallu yn cael ei ofni gan y cenedloedd cyfandirol; a phan y clywid yr alwad yma i dalu gwarogaeth fel gwas i'r Pab o Rufain, ni wyddai y genedl yn iawn pa un a fyddai iddynt ei derbyn hi gyda gwawd neu sarhâd. Nid oedd neb yn dysgwyl y byddai i yspryd dewr a beiddgar fel eiddo Edward byth ymostwng i fod yn gaethwas i Eglwys a llys Rhufain. Yr oedd ei ymddygiad, gan hyny, yn gweddu i dywysog pobl nerthol, ac ymerodraeth oedd o hyd yn lledu ei therfynau. Gweithredodd, er hyny, gyda'r pwyll a'r callineb mwyaf, ac yn lle cymmeryd yr holl gyfrifoldeb arno ei hunan o wrthod hawl y Pab, gosododd y pwnc o flaen ei senedd i'w ystyried a'i benderfynu. Yn yr amgylchiadau hyn daeth Wicliffe allan yn hyf yn erbyn y mynachod, a chyhoeddodd draethawd, yn yr hwn yr amddiffynodd y brenin a'r senedd am wrthod y deyrnged, ac y dangosodd fod y clerigwyr yn bersonol a chymdeithasol yn ddarostyngedig i'r awdurdod wladol. Yn y ddadl hon safai Wicliffe ar yr egwyddor fawr mai yr Ysgrythyrau sanctaidd oedd safon eithaf pob cyfraith. Daeth yn boblogaidd iawn gyda'i gydwladwyr. Darllenid ei lyfrau yn awyddus gan y bobl, ac edrychid at eu hawdwr fel un oedd i wneud gwasanaeth mawr i grefydd, yn erbyn offeiriadaeth halog ac annuwiol.

Yn y flwyddyn 1360, yn ystod y plâ mawr a ymdaenodd dros y wlad, dacthai saith Esgobaeth Seisnig yn wâg, a darfu iddynt oll gael eu llanw gan ddynion o wledydd ereill. Am ryw hyd bu Llywodraeth Lloegr yn cyfryngu gyda'r Pab i geisio ganddo unioni âg ef y camwri Eglwysig a dderbyniasai. Yr oedd pob cynnyg yn ofer, ac o'r diwedd, yn 1374, anfonwyd cenadaeth o saith o bersonau at Gregori XI. i ymgynnghori âg ef ar y pwnc. Yr oedd Wicliffe yn un o'r saith. Cyfarfu y gynnadledd yn Bruges, a pharhaodd am ddwy flynedd lawn, heb wneyd ond ychydig i gyrhaedd yr amcan mewn golwg yn y diwedd. Dychwelodd o'r gynnadledd fel y dychwelodd Cranmer a Luther o Rufain, yn fwy argyhoeddedig nâg erioed o'r angen am ddiwygiad trwyadl mewn materion Eglwysig. Cafodd ddylanwad mawr ar ei feddwl, er ei ragbarotoi i'r sefyllfa bwysig yr oedd wedi ei ethol iddi, fel seren foreu y diwygiad. Yr oedd gwir gymmeriad y Babaeth erbyn hyn yn hysbys iddo, ac o hyn allan ysgrifenodd a llefarodd yn ei herbyn yn ddiarswyd, gan osod allan ei heffeithiau niweidiol ar bersonau a chymdeithasau. Olrheiniodd ei llygredd yn benaf i'w thrachwant.

N. N. S.

(I'w barhau.)

GOFYNIADAU.

(*Gwel yr* Ymofynydd *am Mawrth, tudalen* 71.)

Gofyniad 1.—Pa beth sydd i'w feddwl wrth y gair "seren," gweledig yn Matthew ii. 2?

Gof. 2.—Pa beth sydd i'w ddeall wrth "Hâd Abraham," yr hwn, fel y dywedir, a gymmerodd yr Iesu, gweledig yn Hebreaid ii. 16?

Gof. 3.—Pwy neu pa beth sydd i'w ddeall wrth "Yr hwn nid adnabu bechod," gweledig yn 2 Corinthiaid v. 21?

Cynnyg at ateb y Gofyniadau uchod.

1.—Y neb a noswylio, ond iddo sylwi, efe a wel fod seren yn ymddangos yn nwyreinbarth y ffurfafen, yn hysbysu iddo ddyfodiad haul naturiol y dydd. Yr un fath yn union, i'm tyb i, yn amser nos anwybodaeth y byd, yr ymddangosodd seren yn nwyreinbarth y ffurfafen ysprydol i'r doethion gynt, yn rhagfynegu iddynt ddyfodiad Haul Cyfiawnder. Diamheu mai Duw fu achosydd bodolaeth y "seren" hon, fel pob seren arall; etto, credaf na fyddwn o'r tu allan i gylch y gwirionedd pe dywedwn mai y gallu cynnhyrfiol a roddes gychwyniad i'r "seren" yma i'w thaith oedd y reddf hono o osodiad Duw mewn dyn i chwilio allan ei Grewr. Ond pa mor foreu o oes y byd y dechreuodd gychwyn ar ei thaith arafaidd draw o'r cyfeiriad dwyreiniol ysprydol pellenig sydd i mi yn anhysbys, a pha nifer o genedlaethau a aethant heibio cyn i ddyn ddechreu mwynhau o'i goleuni hefyd, feddyliaf fi, sydd beth rhy anhawdd ei benderfynu yn iawn. Wrth ddarllen llyfr Genesis, gellir meddwl mai Abraham oedd y cyntaf i dalu sylw craff i'r seren yma, ac mai efe yn gyntaf o bawb a gafodd y fraint o fwynhau o belydr ei goleuni gyda gradd o adnabyddiaeth o honi, yn nghyd ag ymwybyddiaeth ei bod yn symud yn flaenfynedol. O leiaf, gan y dywedir mai hâd Abraham a *gymmerodd* yr Iesu, diamheu genyf mai efe (Abraham) oedd adnebydd cyntaf y seren yn flaendeithydd i Haul Cyfiawnder. Yn y 9fed adnod yr ydym yn cael i'r seren a welai y doethion yn y dwyrain fyned o'u blaen hwy "hyd oni ddaeth hi a sefyll goruwch y lle yr oedd y mab bychan," o'r hwn le hefyd y torodd gwawr Haul Cyfiawnder, ac yn fuan i ymddangos. Os yr un (fel y credaf fi) yw y doethion yma yn Matthew a'r "bugeiliaid hyny a arosent yn y maes, ac yn gwylied eu praidd liw nos," y sonia Luc am danynt, nid rhyfedd yr hyn a ddywedir yn y 10fed adnod, sef i'r doethion lawenychu â "llawenydd mawr dros ben pan welsant y seren," a hi yn hyspysu iddynt ddyfodiad haul na wnai byth fachludo. Yn awr, yr hyn a olygaf fi wrth y gair "seren" yw, gradd o oleuni yn yr enaid, sef dechreuad gwybodaeth mewn dyn am ei Grewr—dyn yn dyfod i adnabod Duw yn achosydd bodolaeth y byd a'i gyflawnder, yn fywydydd pob bod bywydol, ac yn feddiannydd yr oll. Yna, dyn trwy ddeddf Duw yn gweithio ynddo yn dyfod i adnabod Duw yn ddeddfroddwr iddo, a thrwy ei deimlad mewnol yn dyfod yn ymwybodol o'i ddyled-

swydd i geisio deall y ddeddf yma, ac hefyd, ufuddhau iddi yn ol ei ddealltwriaeth o honi. Y seren yn awr ar ei thaith, sef gwybodaeth yn myned rhagddi—adnabyddiaeth o Dduw yn cynnyddu, a dyn hefyd yn awr yn dechreu dyfod i adnabod Duw yn ei ogoneddus gymmeriad yn ei gariad a'i drugaredd tuag at, a'i ofal dros y rhai a gadwent ei gyfraith, gan ei ofni fel "Barnydd yr holl ddaear" (yn ol y gyfraith yma o'i eiddo a'i osododd yn y cyfansoddiad dynol). Duw hefyd yn cael ei adnabod yn un, yn well ganddo arbed dinas drom ei phechod os oclai ynddi gynnifer â deg o rai cyfiawn, yn hytrach nâ lladd y cyfiawn gyda'r annuwiol. Darllener Genesis xviii., yn nghyda'r rhan gyntaf o'r bennod ddilynol, lle y gwelwn ofal Duw dros Lot gyfiawn o flaen dinystr Sodom a Gomorrah.

"Gwaredlad Lot a saif yn enghraifft gref
O dadol ofal Ior dros bawb a'i hofnant ef."

2.—Wrth "hâd Abraham" y meddyliaf fi Hâd Goleuni, yr hwn a adnabu Abraham yn ei enaid ei hun, ac a welodd hefyd trwy ffydd, pan gyfodai o'r hâd yma y goleuni hwnw i'w gyflawnder, i wasgar ei belydrau dros holl dywyll leoedd y byd, y celai y pryd hyny "holl genedloedd y ddaear eu bendithio yn ei hâd ef." (Genesis xxii. 18, xviii. 18, a xii. 3.) Gan mai hâd Abraham a gymmerodd yr Iesu, onid aeddfed ffrwyth yr hâd hwn a gyhoeddodd yn ngenau yr Iesu? "Goleuni y byd ydwyf fi; y neb a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni *y bywyd*." (Ioan viii. 12.) Hefyd, gan y dywedir mai y "bywyd oedd oleuni dynion" (Ioan i. 4), y goleuni hwn, feddyliaf fi, oedd guddiedig yn mywyd y byd "cyn bod Abraham" (Ioan viii. 58) (yn y cread, megys y dderwen yn y fesen), "a'r byd nid adnabu mo hono;" eithr Abraham a'i hadnabu ef, a gorfoledd oedd ganddo weled ei ddydd, "ac efe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychodd." (Ioan viii. 56.) Cymhwys iawn, yn ol fel y gwelaf fi, y cymhariaethau hyn. Y gradd goleuni a enwyd, yn ei ddechreuad yn gwanaidd dywynu draw yn y pellder dwyreiniol yn nhywyll ffurfafen ysprydol y byd, ac yn ei araf symmudiadau, yn cael ei adnabod yn debygol gan y doethwr Abraham yn gyntaf megys seren yn flaendeithydd i Haul Cyfiawnder. Y gymhariaeth arall—y seren hon yn hâd i ffrwytho yn nhir ysprydoliaeth y byd, er ychwanegu goleuni ysprydol, nes cynnyddu o hono yn oleuni cyflawn, megys haul i oleuo yr holl fyd.

3.—Wrth "yr hwn nid adnabu bechod" y deallaf fi, nid unrhyw fod personol, ond yr ysprydau wasanaethai i Dduw, neu ag oedd yn was i Dduw i ddatguddio ei hun i'r byd yn rhanol hyd oni ddelai y Mab, sef ysprydau y gwirionedd yn yr Iesu, yn amser rhagappwyntiedig y Tad i wneuthur hyny yn hollol, neu yn gyflawn. Wedi dyfod y Mab, efe a wnaeth yn amlwg nad oedd y gwas hwnw a'i blaenorai wedi datguddio Duw i'r byd ond yn rhanol ac anmherffaith; o ganlyniad, mai cyfeiliornus a phechadurus ydoedd. Gwnaeth y Mab hynyna yn amlwg drosom ni, neu yn hytrach er ein mwyn ni, fel y'n gwnelid ni yn "gyfiawnder Duw ynddo Ef;" hyny yw, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawn

trwy fyw yn un ag ewyllys y Tad yn ol *uniawn* a *chyflawn* ddatguddiad y Mab o honi.

J. Ll.

DUW, CARIAD YW.—Bowring.

O! nid yn wastad gallwn wneyd
Dy ffyrdd i maes, ein Duw;
Ond gallwn bawb yn wastad ddweyd
Duw, cariad yw.

Pan ddelo ofn fel cwmwl du
I d'wyllu'r enaid gwiw,
I'r sanctaidd lys yr enaid dry—
Duw, cariad yw.

Os dirgel brofwn ffyrdd y nef,
Amheuon o bob rhyw
Ddiflanant yn ei wyddfod Ef—
Duw, cariad yw.

Duw, cariad yw—gwirionedd pur,
A balm i'r enaid byw,
I sychu'n dagrau, lleddfu'n cur—
Duw, cariad yw.

Gorphenaf, 1883. *Cyf.* R. J. J.

SUL Y DRINDOD.

Dywedir fod rhai o offeiriaid Gogledd Cymru, yn yr amser gynt, yn arfer dysgu fod perygl i blant bychain oeddynt heb eu bedyddio gael eu cymmeryd i ffwrdd gan y Tylwyth Teg—y Touluod, fel y gelwir hwy mewn rhai manau. Gwnaed hyn, wrth gwrs, er mwyn cynnyddu y dylanwad offeiriadol. Nid yw offeiriaid, fel corff o bobl, erioed wedi bod yn awyddus i oleuo eu gwrandawyr; eu harwyddair hyd heddyw ydyw "Anwybodaeth yw mam duwioldeb." Cynwysa y papyryn darparedig i blant Ysgol Sul yr Eglwys Sefydledig ar gyfer Sul y Drindod, Mehefin yr 8fed, 1884, yr adnod, 1 Ioan v. 7, "Oblegyd y mae tri yn tystiolaethu yn y nef: y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân, a'r tri hyn un ydynt," i brofi athrawiaeth y Drindod. Yn awr, rhaid fod yr offeiriaid a ddarparasant y cyfryw bapyryn naill ai yn ddynion anwybodus iawn, neu yn dwyllwyr gwirfoddol. Dylent fod yn gwybod nad yw yr adnod

i'w chael yn y Testament Newydd Diwygiedig Seisnig, ac mai tipyn o "dwyll duwiol" *(pious fraud)* barodd iddi gael ei gosod i fewn yn y Testament Newydd ar y cyntaf. Ni welodd Ioan erioed mo'r adnod, ac nid ydyw i'w chael yn un o'r *hen* gopiau Groeg o'r Testament Newydd. Yr ydym yn dysgwyl y bydd i'r ysgolion Byrddol leihau y duedd yma i dwyllo a geir yn mhlith yr offeiriaid.

Wele yn canlyn y wers rag-grybwylledig, yr hon a ddefnyddiwyd gyda phlant Ysgolion Sul Eglwysi Lloegr yn Aberdar, Sul y Drindod:—

"*Testyn:*—1. S. Ioan v. 7. Emyn (Keble) yn dechreu 'Holy, Holy, Holy, Lord God Almighty.'

"*Y Wers.*—Darllener '*Y Gredo Athanasiaidd.*' Y mae yr Eglwys heddyw yn cymmhell ein meddyliau i fyfyrio ar ddirgelwch mawr y byth fendigaid Drindod. I'r Iuddewon ni roddwyd ond math o gysgod gwan o'r athrawiaeth fawr hon. (Genesis i. 26; Numeri vi. 24—26 (bendith driphlyg); Esaiah vi. 3; a Datguddiad iv. 8 (teirgwaith sanctaidd). Ond i ni, Gristionogion, y mae wedi ei *chyflawn* (?) ddatguddio. (S. Matthew iii. 13—17, xxviii. 19; Ephesiaid ii. 28; Galatiaid iv. 6; 1 S. Ioan v. 7; a 2 Corinthiaid xiii. 14.) Nis gall y dyn doethaf ddeall y dirgelwch anchwiliadwy hwn, ond yr ydym ni yn ei gredu ar *air sicr yr Ysgrythyrau sanctaidd*, a chyffeswn ef yn y credöau, y rhai y mae yr Eglwys wedi eu dal o'r dechreu.

"(1.) Dylem ddiolch i Dduw ei fod wedi ein galw i wir wybodaeth o hono Ef, a gweddio dros y rhai hyny nad ydynt yn ei feddu, sef Iuddewon ac Undodiaid. Heb gymmeryd arnom i farnu ereill, cofiwn *drosom ein hunain*, os na wnawn ni, y rhai ydym wedi ein dysgu yn y Ffydd Gatholig, 'ei chadw yn gyfan ac yn ddihalog,' a'i 'chredu yn ffyddlawn,' nis gallwn gael ein hachub.

"(2.) Dylem yn neillduol gynyg ein haddoliad heddyw i bob person o'r Drindod Fendigaid am yr oll y maent wedi ei wneuthur, ac yn ei wneuthur dros bob un o honom, fel ein Tad a'n Ceidwad—ein Hiachawdwr a'n Sancteiddiwr," &c.

Dalier sylw, ac edrycher yr adnodau crybwylledig i fyny yn y Beibl, er gweled mor wan yw y sail ar yr hon y credir yr athrawiaeth, ac y collfernir Iuddewon ac Undodiaid; a chofier nad yw 1 Ioan v. 7 ond tipyn o dwyll offeiriadol!! Dylai offeiriaid fod yn gwybod hefyd na welodd Athanasius erioed o'r gredo a elwir ar ei enw, gan na chafodd ei chyfansoddi am hir amser wedi ei farwolaeth, ac nid ydym yn credu y byddai y byd ddim ar ei golled pe byddai heb ei chyfansoddi hyd heddyw.

T. L. R.

CALON dda yw trysor goreu dyn, ei anrhydedd uwchaf, a'i gaffaeliad mwyaf rhagorol. Gwreichionen o'i ddwyfoldeb yw sydd yn urddasoli dynoliaeth.—*Robertson.*

SYLFAEN pob dedwyddwch tymhorol ac ysprydol yw ffydd yn naioni, cyfiawnder, a chariad Duw.—*Robertson.*

Manion a Hanesion.

Y mae gan yr hwn sydd yn gwybod y ffordd i weddio ddirgelwch mewn llwyddiant, a chymmhorth mewn adfyd. Y mae ganddo y medr i feistroli pob gelyn, a throi pob colled i elw. Mae ganddo y gallu i liniaru pob gofal, i ddarostwng pob nwyd, ac i ychwanegu neu osod blâs ar bob mwyniant. Mae llawer o bethau yn dda i mi, ond nid oes dim cystal âg agoshau at Dduw.—*Jay.*

Aros yn amyneddgar yw y ffordd fwyaf effeithiol yn fynych i gyflawnu ewyllys Duw.

Nid wyf fi erioed wedi celu fy ngolygiadau crefyddol, ond nid ydynt y fath a allant gymmeradwyo eu hunain i ddynion o feddyliau cul. Yr wyf fi yn un o'r cyfryw sydd yn gweddio am i Gristionogion allu byw yn undeb y ffydd, yn rhwymau heddwch, ac yn nghyfiawnder bywyd. Mae porth y nef yn llydan iawn.—*Syr Hussey Vivian.*

Gwell yw i ddyn fod saith waith yn y ffwrnes na dyfod allan o honi heb ei buro.

Mae y Parch. W. Parry wedi rhoddi i fyny ofal yr eglwys yn y Nottais, gan gyflwyno ei wasanaeth yn gwbl i'r Wig a Bridgend. Cynelir y cyfarfod chwarter nesaf yn y Wig—y Dr. Vance Smith i bregethu.

Hysbysir ni fod y Parch. J. Evans, Gellionen, wedi rhoddi rhybudd ei fod ar fedr rhoddi gofal yr eglwys hon i fyny.

Dywedir fod y Parch. J. H. Davies, Cefncoed, yn bwriadu gadael, a'i fod wedi rhoddi rhybudd i'r perwyl.

Da genym ddeall fod yr *Hibbert Grant* wedi ei *votio* i Mr. E. D. P. Evans, o Gefncoed. Bwriada ddychwelyd i Brif Ysgol Aberystwyth yn mis Hydref.

Yr oedd Miss Mary Griffiths, o'r *Poplars*, Aberdar, o nifer y rhai a basiodd y *Matriculation Examination* diweddaf cyssylltiedig â Phrif Ysgol Llundain; safai yn drydedd hefyd yn yr arholiad diweddar yn Mhrif Ysgol Caerdydd, gan enill ysgoloriaeth.

Drwg genym ddarllen fod y gweithgar a'r gwladgarol Barch. Jenkin Ll. Jones, Chicago, wedi gorfod rhoddi i fyny ei swydd o ysgrifenydd y *Western Unitarian Conference*, Unol Dalaethiau America, o herwydd gorchymyn ei feddyg. Mae yn parhau, fodd bynag, i weinidogaethu, ac i olygu yr *Unity*.

Mae y Parch. W. J. Davies, Dowlais, wedi enill un o *entrance scholarships* Prif Ysgol Caerdydd, deiliedig am dair blynedd.

Wickliffe.—Ymddengys i ni, oddiwrth lythyr Mr. R. L. Poole, yn yr *Athenæum* am Orphenaf 19eg, 1884, nas gall fod dim llawer o amheuaeth mai Hipswell, tua milldir o Richmond, yw lle genedigol Wickliffe.

Mae maer yn Boston, Unol Dalaethiau America, sydd yn gallu dywedyd, "Pan oeddwn fachgen, aethum i'r cwrdd am fy mod yn gorfod myned; pan oeddwn yn ddyn ieuanc, aethum i'r cwrdd am fy mod yn ei ystyried yn ddyledswydd; ond yn awr yr wyf yn myned am fy mod yn caru myned, am fy mod yn clywed rhywbeth sydd yn fy ngwneuthur yn well—sydd yn peri i mi deimlo fod genyf lawer i fyw er ei fwyn." O! na fyddai genym ragor o'r fath eglwysi, a rhagor o'r fath ddynion i fyned iddynt.—*Unity*, papyr y Parch. Jenkin Ll. Jones.

Mae yn galondid i glywed gwr lleyg yn dwyn tystiolaeth i werth y swydd weinidogaethol. Fel hyn y dywed Leverett Saltonstall, Ysw., mewn araeth yn groesawi y gweinidogion yn Boston:—"Yr wyf yn fynych yn ofni nad ydych yn gweled nac yn dychymygu y daioni a wnewch—eich bod, wrth wylo uwchben yr hâd a hauwyd mewn lle cerrygog, yn methu gweled yr hyn sydd yn syrthio mewn tir da, ac yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed. O! y ddyled sydd arnom i chwi! Mae y rhan fwyaf o'n daioni puraf yn dal cyssylltiad â chwi, ac yn deilliaw oddiwrth eich addysgiadau rhagorol. Ein tristwch dyfnaf oll, fe'i lleddfir gan eich cydymdeimlad a'ch geiriau o gariad. Y fath alwad ogoneddus yw yr eiddoch chwi, ac mor falch y dylai pob un fod i weled ei fab yn ymgymmeryd â hi."—*Unity.* Weinidogion Cymru, holwch eich hunain, a ydych yn ceisio gweithio i fyny i'r safon yna.

The Christian Life.—Credwn fod y rhifyn am Mai 3ydd o'r cyfnodolyn hwn yn un dyddorol i bob Undodwr Cymreig. Cynnwysa fywgraffiadau o Sion Llewelyn o Goedycymmer; y Parch. Richard Rees, gweinidog cyntaf Hen Dy Cwrdd Coedycymmer, ac awdwr emyn 212 yn *Mawl a Gweddi;* y Parch. Edward Evans, Aberdar, awdwr *Afalau'r Awen;* Evan Thomas Rhys o Lanarth, awdwr *Diliau'r Auen;* y Parch. Josiah Rees, Gellionen; Edward Williams (Iolo Morganwg); Dr. Charles Lloyd, mab D. Llwyd, Llwynrhydowen; y Parch. T. Evans, Aberdar; y Parch. John Thomas, Pantydefaid; y Parch. John Edward Jones, hen olygydd Yr Ymofynydd; Dr. David

Lloyd, gynt Prif Athraw Coleg Caerfyrddin. Heblaw llawer o bethau dyddorol ereill, cynnwysa gyfieithiad cyflawn o "Addysg y Deuddeg Apostol," a gyfeirir ato yn YMOFYNYDD Mehefin, tudalen 140, ac a ymddangosodd yn ein rhifyn dlweddaf. Anfoner *stamps* 2½c. at Rev. Robert Spears, 22, Gascoyne Road, Victoria, London, am gopi.

Ni all neb ond yr euog fod yn druenus hollol am amser maith.

Y mae adgofiad dyddiol o Dduw yn achos o ufudd-dod dyddiol i Dduw.

Mae natur dda fel y wenynen yn casglu mêl oddiar bob blodeuyn; ond y mae natur ddrwg yn sugno gwenwyn o'r rhosyn prydferthaf.

UNIGEDD.

O! mae nef yn min afon,—neu lanerch
Lonydd ei chysgodion;
Mae mêl mewn cêl encilion,—a didor
Rodfa i fôr, o bêr adfyfyrion.—*D. W. o E.*

THE PRICE OF PLEASURE.

Upon the valley's lap
The liberal morning throws
A thousand drops of dew
To wake a single rose.
Thus often in the course
Of life's few fleeting years,
A single pleasure costs
The soul a thousand tears.

W. C. B.

Marwgofion.

Mehefin 21ain, o'r darfodedigaeth, John Thomas, Tanygraigwen, Pencarreg, yn 26 oed. Bu yn dihoeni am gryn amser, ond am ychydig amser cyn ei farwolaeth yr oedd ef ei hun, ei berthynasau, a'i gymmydogion yn credu ei fod yn gwella. Yr oedd ei symmudiad felly yn dra annysgwyliadwy i bawb er ei fod wedi bod yn achwyn am amser. Ar ddydd ei angladd daeth torf luosog o gyfeillion a pherthynasau i hebrwng y cyfaill ieuanc ymadawedig hwn etto i'w fedd yn mynwent Caeronen. Rhwng fod ein brawd yn ddyn ieuanc, ac yn ddyn ieuanc llon a serchog i dlawd a chyfoethog, nid oedd nemawr i rudd yn sych yn yr holl dorf. Caffed ei dad a'i fam, ei frodyr a'i chwiorydd, a'i berthynasau ereill, nerth i ymdawelu yn y brofedigaeth chwerw. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog Caeronen.

Mehefin 28ain, yn ei 40 mlwydd, Evan, mab hynaf y diweddar William G. Jenkins, Morris Run, Teioga County, Pennsylvania, Unol Dalaethau America, cyn hyny o Mount Pleasant Street, Aberdar. Caffed yr hen wraig ei fam, a'r rhai sydd ar ol o'i phlant a'i perthynasau, fodd i ymdawelu, ac i fod yn barod erbyn delo yr alwad. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. D. M. Jones (A.), a chladdwyd yn Blossburg.

Gorphenaf 2il, trwy ddamwain, y mae ei manylion torcalonus yn wybyddus yn ddiamheu i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD, John Jones, Gellifaharen, Llandyssul, cofnodydd Llys Sirol Abertawe, yn 48 oed. Gwneir sylwadau pellach yn y rhifyn nesaf. Traddodir y bregeth angladdol yn Llwynrhydowen boreu Sul, Awst y 3ydd, gan y Parch. W. James.

Ar yr un dydd, a thrwy yr un amgylchiad, Edith Howell, merch Mr. a Mrs. Howell, Wavertree, Liverpool, yn 23 oed. Yr oedd Miss Howell yn *governess* yn nheulu Gellifaharen, ac wedi ennill serch diffuant pawb oeddynt yn adnabyddus o honi. Claddwyd y ddau yn Llwynrhydowen y Llun canlynol, a gwasanaethwyd gan y Parchn. T. Thomas, J. Davies, W. James, a T. Lloyd Jones (yn Saesonaeg). Yr oedd y cynhebrwng yn un o'r rhai lluosocaf a welwyd erioed yn yr ardal, ac nid ychydig oeddynt arwyddion y galar dwys a chyffredinol a deimlid gan y dorf fawr oedd yn bresenol. Nodded a chymhorth Tad yr holl drugareddau fyddo yn cynnal i fyny y calonau sydd bron ymollwng o dan faich y trallod hwn.

Gorphenaf 10fed, Ruth Davies, Llethercenin, Pencarreg, yn dri mis oed. Claddwyd yn mynwent Brondeifi, Llanbedr, a gweinyddwyd gan weinidog y lle.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—Lampeter, per R.C.J.; J.G.E., Oxford, a D.L., Bwlch.

TELERAU :—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
IVY COTTAGE,
ABERDARE.

HEN "YMOFYNYDDION."

Mae gan y Golygydd rai cyfrolau y bydd yn dda ganddo eu gwaredu yn rhâd iawn. Dyma gyfle i lenorion ieuainc ac i gynnulleidfaoedd i gyflenwi llyfrgelloedd yr Ysgolion Sul. Peidier oedi. Swllt a grot y gyfrol yn rhâd trwy y *post*.

☞ Dywedir fod Mr. Walter J. Evans, M.A., wedi ei bennodi yn Athraw Coleg Caerfyrddin.